

Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 5

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
P am ... Parti	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ddarganfod gwybodaeth berthnasol Y Cwricwlwm Cymreig <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth am ardal yng Nghymru Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Beth wnest ti ...?	Hanes <ul style="list-style-type: none"> nodi nodweddion sy'n perthyn i gyfnod penodol (yr Ail Ryfel Byd)
Trip ysgol	Hanes <ul style="list-style-type: none"> nodi nodweddion sy'n perthyn i gyfnod penodol (cyfnod Fictoria)
Pa flwyddyn?	Hanes <ul style="list-style-type: none"> nodi nodweddion sy'n perthyn i gyfnodau gwahanol
Canu ar <i>The Voice</i>	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Siarad â?	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo canrannau
Dyddiadur Patagonia	Daeryddiaeth <ul style="list-style-type: none"> nodi lleoliad Patagonia ar fap, cyfrifo'r pellter rhwng Cymru a Phatagonia cofnodi'r cyfeirnodau grid Hanes <ul style="list-style-type: none"> "cael cip ar rai o'r newidiadau a ddigwyddodd yng Nghymru a'r byd ehangach rhwng 1760 a 1914 ac ymateb pobl iddynt" Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo'r pellter rhwng Cymru a Phatagonia nodi cyfesurynnau Patagonia
Beth oedd o?	Hanes <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth am ddigwyddiad yn Ynys Môn yn 1977 a'i thrafod Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Pwy wnaeth e?	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau

Yn ogystal â'r uchod, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7